

Newid Hinsawdd



Ar 58% o arwynebedd tir y byd, mae lefelau colli bioamrywiaeth yn ddigon sylweddol i **fygwth gallu ecosystemau i gynnal cymdeithas ddynol.**

Pan greodd Duw y ddaear, cyhoeddodd ei bod “yn dda”. Mae colli bioamrywiaeth a newid yn yr hinsawdd yn tanlinellu i ni'r her o fod yn stiwardiaid da ar greadigaeth Duw. Mae'r Beibl yn ein hannog i weithredu'n gyfiawn tuag at holl blant Duw ac i “ddadlau o blaid y mud, a thros achos yr holl rai diobaith” (Diarhebion 31:8). Dylai ein galwad i fod yn gyfiawn gynnwys ceisio cyfiawnder ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a fydd yn wynebu tlodi dybryd os byddwn ninnau'n defnyddio adnoddau'r ddaear mewn ffordd anghynaliadwy.

UWCHGYNHADLEDD Y PANEL RHYNGLYWODRAETHOL AR Y NEWID YN YR HINSAWDD YN 2020 YN GLASGOW

Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, bydd y Deyrnas Unedig mewn sefyllfa ddelfrydol i ddylanwadu ar weithredu ynghylch yr hinsawdd ar lefel fyd-eang. Bydd Llywodraeth y DU yn croesawu'r Uwchgyhadledd ar yr Hinsawdd i Glasgow ym mis Rhagfyr 2020, lle disgwylir 30,000 o gynrychiolwyr, gan gynnwys arweinwyr neu gynrychiolwyr o'r rhan fwyaf o genhedloedd y byd. Yr uwchgyhadledd hollbwysig hon fydd y cyfle cyntaf ers Uwchgyhadledd Paris yn 2015 i Lywodraethau gryfhau eu hymrwymadau ynghylch yr hinsawdd. Mae angen i hynny ddigwydd er mwyn sicrhau y byd y nod o gyfyngu cynhesu byd-eang i 1.5o yn parhau'n gyraeddadwy. Yn ystod y paratodau ar gyfer Uwch-gynhadledd 2020, bydd arweiniad cryf gan Lywodraeth y DU yn hollbwysig.

CYRRAEDD TARGEDAU CENEDLAETHOL Y DU

Yn 2019, cyhoeddodd Senedd y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru argyfwng hinsawdd ac ymrwymiad i sicrhau arylliadau sero-net yn y DU erbyn 2050. Ond ar hyn o bryd mae bwch rhwng y bwriad a gyhoeddwyd a mabwysiadu'r polisiau angenrheidiol i sicrhau hynny. Mae yna berygl y gallai Llywodraeth y DU gynnwys yn y cyfrifo'r gwrthbwysio carbon a sicrhawyd drwy ariannu gweithgarwch


mewn gwledydd eraill, ond dylid osgoi hynny. Mae'n rhaid i ni gyrraedd targedau'r DU drwy weithredu yma, gan gynnwys yn y meysydd canlynol:

CYNHYRCHU YNNI

Mae'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd wedi argymhell y dylai 99% o'n trydan erbyn 2050 ddod o ffynonellau 'carbon isel' a allai gynnwys ynni niwclear neu systemau dal a storio carbon (technoleg na chafodd ei defnyddio ar raddfa fawr hyd yma). Rheolir yr adnoddau cynhyrchu trydan graddfa fawr gan y DU, tra bod cynhyrchwyr llai dan reolaeth Llywodraeth Cymru.

CLUDIANT

Mae cludiant yn gyfrifoldeb ar y cyd rhwng Llywodraethau'r DU a Chymru. Gallai trydaneiddio cludiant gael effaith fawr ar arylliadau carbon yn y DU. Fodd bynnag, ni fydd yn ymarferol cael gwared yn raddol â cheir diesel a phetrol heb gynyddu'n sylweddol y nifer o bwyntiau gwefru yn y DU, a bydd hefyd angen i'r cyhoedd ddod i dderbyn y newid. Penderfynodd llywodraeth ddiwethaf y DU beidio â thrydaneiddio'r brif reilffordd yn ne Cymru i'r gorllewin o Gaerdydd, er bod Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â thrydaneiddio rhai rheilffyrdd eraill yng Nghymru.



Lleded ein pedair cenedl mae ymron i 2700 o Eco-Eglwysi ac Eco-Gynulleidfaoedd cofrestredig.

CWESTIYNAU I YMGEISWYR

Er mwyn sicrhau y byddwn yn cyrraedd y targed o arylliadau sero-net yn y DU, pa bolisiau y mae'n rhaid i'r Llywodraeth eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn nesaf?

A all nod o dwf economaidd di-bendraw fod yn gydnaws â datgan argyfwng hinsawdd?

CWESTIYNAU I'W TRAFOD

Beth fydd gan genedlaethau'r dyfodol i'w ddweud am bolisiau heddiw o gwmpas newid yn yr hinsawdd? Pa newidiadau sydd angen digwydd yn eich ardal leol i gynorthwyo i leihau allyriadau o gludiant?